Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Sir Conwy

Ebrill 2006 – Mawrth 2007

Rhagair

Hyderwn y bydd yr adroddiad hwn yn cyfleu darlun o waith a chyfeiriad cyffredinol Menter Iaith Conwy. Ceir cofnod manylach o waith y fenter yn ein hadroddiadau Chwarterol.

Bu'n flwyddyn arall o symud ymlaen i Fenter Iaith Conwy. Gwelwyd cynydd yn nifer ein staff, yn eu gallu i weithredu, yn ein cyllid ac yn nifer y digwyddiadau a'n gwirfoddolwyr.

Mae Cynllun Gweithredu Ardal Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Popeth Cymraeg a Chyfieithu Cymunedol Conwy'n parhau i rannu swyddfa efo ni. Rydym yn disgwyl i swyddog o'r Urdd a chyfieithydd cymunedol cynorthwyol ddod yma atom ni yn ystod y misoedd nesaf.

Yn ogystal â chynnal a datblygu pwyllgor ardal Pen-Llan fe lwyddwyd i sefydlu a chyfansoddi 2 bwyllgor newydd.

Pwyllgor y Creuddyn (Ardal Llandudno a Bae Colwyn)

Pwyllgor y Berfeddwlad (Yr Ardal Rhwng Dyffryn Conwy a Chlwyd)

Strwythur Staff

Gwelwyd un aelod o staff yn ymadael, sef Carys Dafydd o gynllun Gwyliau Cymraeg a hoffwn ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith. Gwelwyd 2 aelod staff newydd yn cael eu penodi, sef Elliw Griffiths (Swyddog Ymwybyddiaeth Treftadaeth Iaith) a Bedwyr ap Gwyn (Swyddog Ardal Wledig)

Swyddog Datblygu, Meirion Davies, 37 awr, Mehefin 01

Swyddog Maes, Deiniol Thomas 37 awr, Mehefin 02

Swyddog Gweinyddol, Teleri Hughes, 15 awr, Mai 03

Swyddog Datblygu M.I.C., Iwan Williams, 15 awr, Mehefin 04

Swyddog Cyfieithu Cymunedol, Dafydd Chilton, 37 awr, Tachwedd 05

Swyddog Ymwybyddiaeth Treftadaeth Iaith, Elliw Griffiths, Mai 06

Swyddog Ardal Wledig, Bedwyr ap Gwyn, 37 awr, Mawrth 07

Cynlluniau Ardal Bwrdd yr Iaith.

Bu cydweithio cyson gyda Swyddog y Cynllun Gweithredu. Mae cael swyddog penodol i ddelio ag ardal Llanrwst wedi galluogi'r Fenter i ddechrau cynnal gweithgareddau ledled y Sir.

Cyllid 06 – 07

£80,000 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

£15,000 Cronfa Treftadaeth y Loteri

£15,000 trosiant Cyfieithu Cymunedol Conwy

£15,000 Cywaith Cymru – Llwybr treftadaeth Llanrwst.

£10,000 CAE – Swyddog Ardal Wledig.

£10,000 Cronfa Datblygu Gymdeithasol Cyngor Sir Conwy. Cyfieithu Cymunedol.

£ 10,000 Cronfa Risg Gymdeithasol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Hyfforddi Arwain Mynydd.

£5,000 Arian i Bawb, Arddangosfa Treftadaeth Iaith.

£5,000 Cyngor Sir Conwy, arian craidd.

£5,000 Cyngor y Celfyddydau, gweithdai celfyddydol.

£1,000 Adran Celf Cyngor Conwy, Llanast Llanrwst.

£1,000 Cynllun Ardal Llanrwst, Llanast Llanrwst.

£1,000 Cist Gymunedol Conwy (Sportslot) Hyfforddi Syrffio

£500 Cyngor y Celfyddydau, Llanast Llanrwst

£500 Busnesau Tref Llanrwst, Llanast Llanrwst.

£500 Menter Nant Conwy – Arddangosfa Treftadaeth Iaith.

Incwm Cyfan £150,800 Ffynonellau Eraill £84,500 Cyfraniad BYIG £66,300 sef 43.9%

Cynlluniau Gwireddu Strategaeth

Prosiect Busnes

Dosbarthwyd deunyddiau Iaith Gwaith yn nhrefi Llandudno a Bae Colwyn. Mae'r fenter yn parhau i gynnal cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i'r rhai hynny sy'n cychwyn busnes drwy Antur Conwy.

Cymraeg yn Gyntaf.

Cynhaliwyd wythnos Cymraeg yn Gyntaf yn Llandudno. Cafwyd wythnos lwyddiannus fu'n gymorth mawr i sefydlu pwyllgor ardal y Creuddyn.

Sector Gwirfoddol

Cyfieithu Cymunedol

Llwyddwyd i ddenu £10,000 i gyllido'r cynllun gan gronfa S.D.S. Cyngor Sir Conwy. Mae'r cynllun wedi llwyddo i ddenu gweddill ei hincwm drwy fasnachu.

Mae incwm y cynllun wedi cynyddu'n gyson. Gwelwyd trosiant cyson o dros £1,000 y mis. Ein gobaith yw cyflogi cyfieithydd dan hyfforddiant yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn gallu ymateb i'r galw cynyddol.

Mae'r cynllun hefyd wedi cydweithio â Phrifysgol Bangor i ddatblygu cwrs Cyfieithu ar y Pryd. Cynhaliwyd 2 gwrs yn ystod y cyfnod yma efo 18 yn mynychu.

Rydym hefyd mewn trafodaethau efo Bwrdd yr Iaith Aeleg i addasu'r cwrs ar gyfer anghenion yr Alban.

Methiant fu ein cais i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer Cyflogi Swyddog Gwirfoddoli a Chyfieithu Cymunedol.

Y Sector Gyhoeddus

Rydym wedi derbyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan Gyngor Sir Conwy. Mae'r cytundeb yn cynnwys elfennau o fonitro cynllun iaith Cyngor Sir Conwy.

Mae bwriad gennym ni hefyd i ddatblygu asiantaeth sgiliau gweinyddol dwyieithog fyddai'n bwydo'r sector gyhoeddus.

Plant a Phobl Ifanc

Gweithdai Roc – Denwyd arian i drefnu cyfres o weithdai roc dros yr Haf..

Clwb Plant Pae Penrhyn - Mae clwb chwarae ar ôl ysgol wedi cychwyn ym Mae Penrhyn mewn partneriaeth ag Ysgol Glanwydden, Ysgol Bodafon, Yr Urdd a TWF. Daw'r arian ar ei gyfer trwy grant Arian i Bawb, sy'n cyflogi staff i ofalu am y plant ac un athro i ddysgu rhieni sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg.

Rydym yn Gweithio efo Prif Athrawon ardal y Glannau i asesu'r angen am ddarpariaeth ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg.

Gigs - cynhaliwyd sawl gig yn ystod y flwyddyn. Ceisiwyd cynnal gig yn Llandudno am y tro cyntaf ond roedd yn aflwyddiannus er i ni weithio'n agos iawn ag Ysgol y Creuddyn. Lleoliadau eraill, lle cynhaliwyd cyngherddau llwyddiannus: Penmaenmawr, Llanfairfechan.

Gweithgareddau Cymdeithasol

Cyrsiau Cyfrwng Cymraeg

Bu cynnydd yn y nifer o gyrsiau Cymraeg a gynhaliwyd yn y sir - trwy gydweithio â Choleg Llandrillo, Elusendai Llanrwst, Prifysgol Bangor ac Ysgol Dyffryn Conwy.

Sbaeneg (Llanrwst ac Abergele)

Ffrangeg (Llanrwst)

Adloniant

Llwyddwyd i gynnal rhaglen o adloniant trwy'r flwyddyn gan gynnwys mwy o ddigwyddiadau ar y Glannau. Ceir y manylion llawn yn ein hadroddiadau chwarterol.

Cynhaliwyd ŵyl feicio mynydd yn Llanrwst yn sgil ffurfio Clwb Beicio Mynydd Dyffryn Conwy, sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg.

Llanast Llanrwst

Llwyddwyd i gynnal gŵyl lwyddiannus arall.

Gweler yr Atodiad.

Dysgwyr

Sesiynau Siarad

Daeth sesiwn Siarad yr heddlu i ben. Ond cychwynnwyd un bob pythefnos yng nghaffi Debenhams, Llandudno.

Cynllun Cadifan

Llwyddwyd i roi 21 o ddysgwyr trwy gynllun dosbarthiadau niferoedd isel.

Sadwrn Siarad

Erbyn hyn cynhelir 5 Sadwrn Siarad yn fisol efo 2 yn rhedeg ar yr un Sadwrn.

Lleoliadau:

Llanrwst, Swyddfa'r Fenter

Bae Colwyn, Caffi Blod. Symudwyd i Clwb Golff Llandrillo yn Rhos yn dilyn wythnos Cymraeg yn Gyntaf a gwelwyd y niferoedd yn codi o oddeutu 10 i 30.

Llanfairfechan, Canolfan Cwmni Penllan

Llansannan, Y Llew Coch

Llanefydd, Neuadd y Pentref

Cynllun Pontio *(lle mae siaradwyr Cymraeg yn mynd mewn i 20 munud olaf gwers i gynorthwyo dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg)*

Llanrwst (Cynllun Ardal). Ni lwyddwyd i'w chynnal.

Llanfairfechan. Llwyddwyd i'w chynnal - er nad ydi Prifysgol Bangor yn awyddus i ni wneud hyn mwy nac unwaith y mis.

Cyffordd Llandudno. Ni lwyddwyd i'w chynnal.

Pecyn Croeso

Rydym yn cydweithio â'r Bwrdd i ddosbarthu'r argraffiad diweddaraf, a'i adnoddau, trwy arwerthwyr tai y sir er mwyn codi ymwybyddiaeth bobl newydd i'r ardal o'r Gymraeg.

Marchnata

Ceir sylw cyson i'r Fenter Iaith yn y wasg.

Sioeau Sirol

Mae pob sioe yn y sir wedi derbyn gwybodaeth am y Fenter ac rydym yn ymweld â sioeau:

Llanrwst, Eglwysbach. Nid oedd y tywydd yn caniatáu i ni ymweld â Sioe Cerrigydrudion i hyrwyddo gwaith y Fenter.

Cyfarfodydd a Phartneriaid

Sefydlwyd Partneriaeth Sirol i gynorthwyo cydweithio rhwng holl bartneriaid y Bwrdd yn y Sir.

Sefydlwyd Partneriaeth Darparwyr Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg

Mynychwyd nifer o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Mentrau Iaith Cymru (ail-etholwyd Meirion Davies yn Gadeirydd Staff y Mentrau)

Mentrau'r Gogledd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Yr Urdd, Twf, Gwobr Dug Caeredin, W.C.V.A., CYD, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru.

Cynlluniau Penodol / Llorweddol

Bys a Bawd

Treuliwyd cryn amser gan Brif Swyddog y Fenter i ddiogelu cyllid a rheolwyr er mwyn prynu a rhedeg y busnes gwerthu nwyddau Cymraeg 'Bys a Bawd' yn Llanrwst. Y bwriad oedd arbed y busnes rhag cau a chynorthwyo Menter Iaith Conwy i ddod yn fwy hunangynhaliol yn yr hir dymor. Hefyd fe ddechreuwyd ar gais i Cyllid Cymru.

Gan fod person lleol wedi mynegi diddordeb mewn prynu a rhedeg y busnes bu'n rhaid tynnu yn ôl o'r fenter.

Yr Hen Ysgol, Llanrwst

Mae pwyllgor lleol wedi ei ffurfio i ddatblygu'r cynllun. Rydym wedi bod yn trafod efo perchennog y safle (Cwmni Pennaf cyf), sy'n fodlon rhoi'r safle i ni os gallwn ni ddenu arian i'w ddatblygu. Mae'r cynlluniau wedi eu lunio.

Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Sgiliau Gweinyddol

Trafodaethau wedi eu cynnal efo BYIG a WEFO a chais amlinellol wedi ei pharatoi.

Asiantaeth

Trafodaethau wedi eu cynnal efo BYIG a WEFO a chais amlinellol wedi ei pharatoi.

Cynlluniau Mentrau Iaith Cymru, gweithredwyd yn rhinwedd y ffaith mai'r swyddog datblygu ydi cadeirydd Staff M.I.C.

Ysgrifennwyd ymateb i gynlluniau llywodraeth y Cynulliad i uno B.Y.I.G. efo'r Cynulliad Cenedlaethol.

Menter Iaith i'r Wladfa

Llwyddwyd i ddod a nifer o bartneriaid amlwg yn y maes fydd o bosib yn ariannu cynllun o'r math.

Cyrsiau / Hyfforddiant

STAFF

Meirion Davies;

Cwrs Rheoli Amser, Rheoli Staff, Cyfraith Cyflogi.

Elliw Griffiths;

1 diwrnod y mis, cwrs ôl radd Datblygu cymuned.

Cwrs Wythnos creu DVD.

Cwrs Hyfforddi Hyfforddwyr Ymwybyddiaeth Iaith 2 ddydd.

Cwrs Arwain Teithiau Cerdded a Chymorth Cyntaf.

Deiniol Thomas

Cwrs Arwain Teithiau Cerdded a Chymorth Cyntaf.

Dafydd Chillton

Arholiad Llawn Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Bedwyr Ap Gwyn

Arholiad Arwain Mynydd Wythnos o hyd

GWIRFODDOLWYR

Wyn Jones, Baudewijn Morgan, Eirian Jones, Gwyn Jones;

Cyfraith Cyflogi

Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd ail Gyfarfod Blynyddol Menter Iaith Conwy yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst ar y 18fed o Ebrill. Roedd y niferoedd a fynychodd yn uwch o dipyn nac y llynedd. Llwyddwyd i ethol swyddogion.

Ail-etholwyd Wyn Jones yn gadeirydd ac Angharad Booth Taylor yn Drysorydd.

Eirian Jones – Sector Gwirfoddol

Arwel Elias – Ieuenctid

Gwyn Roberts – Materion Staffio

Geraint Fôn – Sector Busnes.

Baudewijn Morgan – Dysgwyr.

I Gloi

Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn wedi rhoi blas i chi o'r hyn mae Menter Iaith Conwy yn ei gyflawni. Ceir adroddiad manylach o'n holl weithgareddau yn ein adroddiadau chwarterol.

Mae'n cynydd mewn adnoddau dynol wedi ein galluogi ni i gynnal a chynyddu ein gwaith hyrwyddo ar draws y sir. Mae hyn hefyd wedi galluogi'r Swyddog Datblygu i ymhél â chynlluniau mwy uchelgeisiol fydd yn sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i Fenter Iaith Conwy ac i'r Gymraeg yn y Sir.

Meirion Davies

(Swyddog Datblygu Conwy)